Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Wirfoddol Reoledig Talacharn
# Parc y Berllan
# Talacharn
# Sir Gaerfyrddin
# SA33 4TE

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2013**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Gymraeg i Saesneg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 24/12/2013**

## Cyd-destun

Mae’r Ysgol Gynradd Wirfoddol Reoledig hon wedi ei lleoli ym mhentref Talacharn tua phymtheg milltir o dref Caerfyrddin, yn Sir Gaerfyrddin. Mae’n gwasanaethu’r pentref a’r ardaloedd o gwmpas.

Mae 70 o ddisgyblion rhwng tair ac 11 oed ar gofrestr yr ysgol, gan gynnwys wyth disgybl o oed meithrin sy’n mynychu’n rhan amser. Mae niferoedd y disgyblion wedi gostwng dros y blynyddoedd diwethaf.

Derbynnir disgyblion i’r ysgol yn rhan amser ar ddechrau’r tymor sy’n dilyn eu trydydd pen-blwydd ac yn amser llawn ar ddechrau’r tymor y maent yn bedair oed. Addysgir y disgyblion mewn tri dosbarth o oed cymysg gan bedwar athro amser llawn. Daw’r rhan fwyaf o ddisgyblion o gartrefi lle siaredir Saesneg ar yr aelwyd. Yn unol â pholisi’r awdurdod lleol, Saesneg yw prif gyfrwng yr addysgu a’r dysgu. Addysgir y Gymraeg fel ail iaith.

Mae gan tua 24% o’r disgyblion anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys nifer fach o ddisgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae ychydig iawn o ddisgyblion o gefndir ethnig lleiafrifol. Mae 7% o’r disgyblion â’r hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim, canran sy’n sylweddol is na’r cyfartaleddau sirol a chenedlaethol. Mae’r canran hwn wedi gostwng yn ddiweddar.

Mae’r pennaeth wedi bod yn ei swydd ers Medi 2010.

Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf ym mis Hydref 2007.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Wirfoddol Reoledig Talacharn yn 2013-2014 yw £3,680. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Sir Gaerfyrddin yw £8,152 a'r lleiafswm yw £2,941. Mae Ysgol Talacharn yn safle 54ain o'r 106 ysgol gynradd yn Sir Gaerfyrddin o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu dysgu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol;
- yr ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu diddorol;
- cyfleoedd cyfoethog i hyrwyddo datblygiad personol y disgyblion fel unigolion cyflawn;
- yr addysgu o ansawdd da ar y cyfan;
- darpariaeth effeithiol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol; a bod
- yr ysgol yn gymuned gynhwysol a gofalgar.

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn dda oherwydd bod:

- gan y pennaeth weledigaeth glir a chadarn ar gyfer datblygiad pellach yr ysgol;
- yr holl staff yn cydweithio'n effeithiol fel tîm;
- defnydd da o weithdrefnau tracio i olrhain cynnydd y disgyblion;
- yr ysgol yn adnabod yr hyn sydd angen ei wella ac yn gweithredu'n systematig ar hynny;
- sylw da i nifer o flaenoriaethau lleol a chenedlaethol; a bod
- defnydd effeithiol o amrediad o bartneriaethau sy'n dylanwadu'n adeiladol ar y ddarpariaeth.

## Argymhellion

A1 Gwella cyflawniad y disgyblion mwy galluog ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2

A2 Ymestyn medrau Cymraeg ail iaith y disgyblion

A3 Cryfhau trefniadaeth y Cyfnod Sylfaen i sicrhau her gyson i'r disgyblion

A4 Lledaenu'r arfer dda yn y marcio ar draws yr ysgol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Ar draws y dosbarthiadau, mae'r disgyblion yn gwrando'n dda. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn siarad am eu gwaith yn hyderus gan fynegi eu hunain yn glir. Maent yn dwyn i gof dysgu blaenorol a'i gymhwyso'n briodol i sefyllfaoedd newydd, yn arbennig disgyblion cyfnod allweddol 2.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o'r disgyblion yn darllen gyda rhuglder cynyddol ac yn defnyddio strategaethau pwrpasol i ddarllen geiriau anghyfarwydd. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn darllen yn gywir ac yn ystyrlon.

Gallant drafod y prif gymeriadau a'r digwyddiadau yn eu nofelau gyda dealltwriaeth dda. Maent yn ymddiddori mewn llyfrau ac yn datblygu'n ddarllenwyr annibynnol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn datblygu eu medrau ysgrifennu yn briodol. Maent yn dechrau defnyddio geirfa ehangach ac atalnodi cywir. Fodd bynnag, nid yw'r disgyblion mwy galluog yn ysgrifennu'n estynedig yn ddigon rheolaidd. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn ysgrifennu'n hyderus ac yn estynedig mewn amrywiaeth o ffurfiau. Maent yn cyflwyno eu syniadau a'u gwybodaeth yn effeithiol ac yn dangos gafael sicr ar batrymau sillafu ac atalnodi.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r mwyafrif o'r disgyblion yn adnabod, trefnu a defnyddio rhif yn gymwys i gyfrif a datrys problemau sylfaenol. Maent yn adnabod patrymau mewn rhifau ac yn defnyddio'r wybodaeth hon yn briodol i ddatrys problemau rhif yn eu gweithgareddau. Defnyddiant eirfa fathemategol yn gywir ar y cyfan. Maent yn ymdrin â mesuriadau gwahanol yn ymwneud â hyd gyda chywirdeb cynyddol. Medrant ddewis yr unedau cywir ar gyfer tasgau penodol. Mae ganddynt wybodaeth dda am nodweddion siapiau dau-ddimensiwn a rhai tri-dimensiwn cyfarwydd.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae gan y rhan fwyaf o'r disgyblion ddealltwriaeth dda o ffeithiau rhif. Mae'r mwyafrif yn gwneud cyfrifiadau yn y pen yn hyderus ac yn egluro'r strategaethau a ddefnyddiant yn synhwyrol. Mae ganddynt afael sicr ar ffurfiau mesur gwahanol a defnyddiant iaith a thermau priodol wrth drafod a chofnodi eu gwaith. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn medru casglu a chynrychioli data o ffynonellau amrywiol yn effeithiol mewn tasgau rhif ac yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Yn eu gwaith thema mewn hanes er enghraifft, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud defnydd da o'u medrau rhif, mesur a TGCh yn eu hymchwiliadau ac i gyflwyno eu casgliadau.

Ar draws yr ysgol, ond yn arbennig yng nghyfnod allweddol 2, mae'r mwyafrif o'r disgyblion yn defnyddio eu medrau meddwl a'u medrau ymchwilio yn bwrpasol yn eu gwaith ar draws y pynciau.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, mae canran y disgyblion a gyflawnodd y deilliant

disgwyliedig, sef deilliant 5, yn anwastad. Yn asesiadau 2012, roedd canlyniadau'r disgyblion mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu, a datblygiad mathemategol yn uwch na chyfartaleddau'r teulu o ysgolion tebyg a Chymru. Roeddent yn is na'r cyfartaleddau yn 2013. Ym maes datblygiad personol a chymdeithasol, roedd canlyniadau'r disgyblion yn uwch na chyfartaleddau'r teulu o ysgolion a Chymru yn 2012. Yn asesiadau 2013, roedd cyflawniadau disgyblion yn debyg i gyfartaleddau'r teulu o ysgolion ond yn is na'r cyfartaleddau cenedlaethol.

Yng nghyfnod allweddol 2 dros y ddwy flynedd ddiwethaf, roedd canran y disgyblion a gyflawnodd y lefel ddisgwyliedig, sef lefel 4 mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, yn uwch na chyfartaleddau'r teulu o ysgolion a Chymru. Roeddent yn fwy anwastad yn y blynyddoedd blaenorol.

O gymharu ag ysgolion â lefelau tebyg o ran yr hawl i brydau ysgol am ddim, mae perfformiad yr ysgol ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 yn amrywio.

Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r deilliannau uwch, sef deilliant 6 ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a lefel 5 ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn anwastad.

Nid oes patrwm cyson yn y gwahaniaeth rhwng canlyniadau bechgyn a merched er bod amrywiaethau ar draws y pynciau. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da ac yn cyflawni eu targedau.

Mae llawer o'r disgyblion yn dechrau datblygu eu medrau llafar, darllen ac ysgrifennu Cymraeg gan ddefnyddio patrymau brawddegol sylfaenol yn gynyddol wrth fynd trwy'r ysgol. Maent yn deall ac yn ymateb yn hyderus i gyfarchion a chyfarwyddiadau syml. Mae disgyblion yn gyffredinol yn dangos agweddau da at ddysgu'r iaith ond nid oes ganddynt afael digon sicr ar ystod o batrymau brawddegol na'r eirfa i gyfathrebu'n rhwydd mewn sefyllfaoedd gwahanol.

**Lles: Da**

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn ymwybodol o fanteision bwyta'n iach ac ymarfer y corff ac yn deall sut maent yn cyfrannu at eu hiechyd.

Mae ymddygiad y rhan fwyaf o'r disgyblion yn dda. Maent yn gwrtais tuag at ei gilydd ac oedolion. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn dangos diddordeb mawr yn eu dysgu ac yn cydweithio'n gynhyrchiol ag eraill.

Mae'r disgyblion yn chwarae rhan bwysig ym mywyd y gymuned leol a cheir cyswllt cryf gyda llawer o sefydliadau, busnesau ac unigolion. Mae'r disgyblion yn elwa'n fawr o'r profiadau hyn ac yn datblygu ystod eang o fedrau personol a chymdeithasol sy'n eu paratoi'n dda ar gyfer bywyd tu allan i'r ysgol.

Mae aelodau'r cyngor ysgol, y cyngor eco a'r pwyllgor masnach deg yn cyfrannu'n llawn at wneud penderfyniadau ac yn cyflawni eu dyletswyddau yn effeithiol. Mae disgyblion yn ysgwyddo ystod o gyfrifoldebau, yn cynnwys clybiau hamdden amser cinio, gyda balchder.

Mae lefelau presenoldeb disgyblion dros y pedair blynedd diwethaf yn anwastad. O'u cymharu â chyfartaleddau ysgolion tebyg, mae'r ffigurau dros y cyfnod hwn yn amrywio rhwng y 25% isaf a'r 50% uchaf ond mae tuedd at wella dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn cynllunio profiadau a gweithgareddau symbylus sy'n ysgogi diddordeb y disgyblion ar draws yr ysgol. Mae'r cynlluniau yn ymateb yn briodol i ofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol a chwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Mae'r ystod eang o weithgareddau allgyrsiol, ynghyd â phrofiadau preswyl, ymweliadau a chyfraniad ymwelwyr yn cyfoethogi'r cwricwlwm yn llwyddiannus.

Mae'r cynllunio gofalus o weithgareddau amrywiol ar draws yr ardaloedd dysgu a'r cwricwlwm yn sicrhau bod medrau meddwl, cyfathrebu, rhifedd a TGCh yn cael sylw teilwng yng ngwaith y dosbarthiadau. Mae'r ffocws cadarn ar hybu medrau llythrennedd y disgyblion yn cael effaith gadarnhaol ar safonau.

Mae'r athrawon yn cynllunio tasgau'n fanwl i gwrdd ag anghenion dysgu'r ystod oed a gallu o fewn eu dosbarthiadau. Fodd bynnag, nid yw trefniadaeth dosbarth y Cyfnod Sylfaen yn sicrhau bod y gweithgareddau yn cynnig digon o her i'r disgyblion yn gyson.

Mae'r datblygiadau diweddar o ran y cynllunio yn gwella'r ddarpariaeth ar gyfer hyrwyddo medrau Cymraeg y disgyblion. Mae ymweliadau â mannau o ddiddordeb, cymryd rhan mewn eisteddfodau ac ymwneud mewn gweithgareddau cymunedol yn ymestyn gwybodaeth y disgyblion o hanes a diwylliant Cymru.

Mae darpariaeth dda i hybu dealltwriaeth y disgyblion o gynaliadwyedd a dinasyddiaeth fyd-eang. Gwneir hyn yn effeithiol drwy'r cwricwlwm, gweithgareddau'r cyngor eco a phwyllgor masnach deg, ymweliadau a chysylltiadau gyda gwledydd eraill.

**Addysgu: Da**

Mae'r athrawon yn meddu ar wybodaeth bynciol gadarn. Maent yn cynllunio'u gwersi yn ofalus, gydag amcanion dysgu clir. Ar draws yr ysgol, mae defnydd pwrpasol o adnoddau i gefnogi'r dysgu a'r addysgu. Mae'r berthynas dda rhwng yr holl staff a'r disgyblion yn hyrwyddo'r dysgu.

Yn y rhan fwyaf o sesiynau, mae ffocws clir ar adeiladu ar waith blaenorol, holi medrus, a chyfleoedd pwrpasol i'r disgyblion gymryd rôl weithredol yn eu dysgu. Fodd bynnag, mewn ychydig o sesiynau nid yw tasgau yn ymestyn dysgu'r disgyblion yn ddigonol.

Mae gan yr ysgol drefniadau manwl ar gyfer asesu a chofnodi cynnydd disgyblion. Mae defnydd effeithiol o weithdrefnau tracio i olrhain cynnydd disgyblion ac i adnabod y rhai hynny sydd angen cefnogaeth ychwanegol.

Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu wedi eu sefydlu yn gadarn yn y dosbarthiadau ac yn cael effaith gadarnhaol ar safonau. Yng nghyfnod allweddol 2 yn arbennig, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn defnyddio ystod o strategaethau yn naturiol wrth iddynt geisio gwella eu dysgu a'u dealltwriaeth. Mae gwaith y disgyblion yn cael ei farcio'n rheolaidd ac yn yr arfer orau yn dangos i'r disgyblion yn glir sut i wella safon eu gwaith. Nid yw'r arfer yn gyson ar draws yr ysgol.

Caiff rhieni wybodaeth gynhwysfawr am gynnydd a datblygiad eu plant trwy gyfrwng nosweithiau ymgynghori ac adroddiadau priodol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gynnes a gofalgar sy'n rhoi sylw da i ddatblygiad personol ac addysgol y disgyblion. Mae gan yr ysgol y trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae'n hybu ymarfer corff a ffitrwydd drwy ystod o weithgareddau pwrpasol.

Mae darpariaeth effeithiol ar gyfer meithrin datblygiad cymdeithasol, moesol a diwylliannol y disgyblion. Mae'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol, ac ymweliadau a phrosiectau cyffrous, yn sbarduno diddordeb y disgyblion ac yn gwneud cyfraniad pwysig i'r meysydd hyn.

Mae gan yr ysgol bolisi a gweithdrefnau priodol ar gyfer diogelu ac nid ydynt yn destun pryder. Mae'r staff wedi derbyn hyfforddiant addas. Mae gweithdrefnau'r ysgol a chydweithrediad rhieni yn hyrwyddo presenoldeb gwell ar draws yr ysgol.

Mae darpariaeth effeithiol ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae athrawon yn nodi unrhyw anghenion yn gynnar ac yn monitro cynnydd disgyblion yn fanwl trwy asesiadau rheolaidd. Mae'r staff cynnal yn gweithio'n gynhyrchiol gyda disgyblion unigol a grwpiau. Mae'r rhaglenni cymorth ychwanegol yn cael effaith gadarnhaol ar gynnydd y disgyblion. Mae partneriaethau a chysylltiadau adeiladol gydag asiantaethau priodol i hyrwyddo lles disgyblion.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol sydd yn hyrwyddo cyfle cyfartal i'r holl ddisgyblion. Mae'n cynnig amgylchedd diogel a chroesawgar. Mae'r parch amlwg rhwng y staff a'r disgyblion yn gryfder. Mae pwyslais cryf ar gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth. Mae'r ysgol wedi derbyn nifer helaeth o dystysgrifau a gwobrau, a chymeradwyaeth, am hybu hawliau dynol.

Mae'r adeilad yn darparu digon o le a chyfleusterau pwrpasol sydd yn cael eu defnyddio'n addas ar y cyfan i gefnogi dysgu'r disgyblion. Mae'r arddangosfeydd yn darparu amgylchedd lliwgar ond nid ydynt yn cynnwys digon o waith y disgyblion bob amser. Caiff yr adeiladau a'r safle eu cynnal a'u cadw'n dda.

Mae digon o adnoddau o ansawdd da sy'n cael eu defnyddio'n bwrpasol i hybu'r dysgu. Nid yw ardal allanol y Cyfnod Sylfaen wedi cael ei datblygu'n ddigonol i ymestyn profiadau dysgu'r disgyblion.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth a'r corff llywodraethol yn rhoi cyfeiriad strategol clir ac effeithiol i'r ysgol a'i disgyblion. Mae arweinyddiaeth gref y pennaeth yn ffactor allweddol wrth sicrhau gwelliannau mewn darpariaeth a safonau. Mae cyfathrebu rhwng staff ar bob lefel yn gryfder yn yr ysgol. Maent yn deall ac yn cyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau strategol yn effeithiol.

Mae sylw cyson i ddadansoddi data ac i roi strategaethau yn eu lle sydd yn llwyddo i wella ansawdd y ddarpariaeth a chodi safonau.

Mae'r corff llywodraethol, sy'n cynnwys nifer o aelodau cymharol newydd, yn ymgymryd â'i ddyletswyddau'n gydwybodol a thrwyadl. Mae'r aelodau yn datblygu dealltwriaeth dda o'r ffordd y mae'r ysgol yn perfformio trwy wrando ar staff, ymweld â dosbarthiadau a chael adroddiadau oddi wrth y pennaeth a'r staff. Maent yn herio'r ysgol yn dda fel ffrindiau beirniadol ac yn trin data perfformiad yr ysgol yn hyderus ar y cyfan.

Mae'r ysgol yn rhoi sylw da i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn derbyn sylw manwl ac mae'r athrawon yn mynd i'r afael â thanberfformiad bechgyn mewn darllen trwy ddarpariaeth ac adnoddau gwell. Mae'r cynlluniau ysgolion iach ac ysgolion eco yn elfennau blaenllaw o'r cwricwlwm ac wedi'u hymgorffori'n dda.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan y pennaeth ffocws clir ar wella safonau. Mae'r holl staff yn rhannu ymdeimlad cryf iawn o bwrpas cyffredin lle mae'r disgyblion yn ganolog i'r holl benderfyniadau a wneir. Gwna'r ysgol ddefnydd llawn o weithgareddau monitro er mwyn llunio darlun clir o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu. Maent yn cynnwys trafod data, arsylwi gwersi, craffu ar waith disgyblion, diweddaru dogfennaeth a sgwrsio â disgyblion.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn cynnig darlun cytbwys o'r ddarpariaeth ac yn adnabod yr agweddau priodol i dderbyn sylw. Mae'r ysgol yn gofyn barn disgyblion, rhieni a llywodraethwyr yn rheolaidd. Mae'r staff yn ystyried unrhyw awgrymiadau ac yn gweithredu arnynt os yw'n briodol.

Mae cyswllt agos rhwng y broses hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant. Mae'r cynllun datblygu ysgol yn ddogfen weithredol sy'n arwain at welliannau mewn safonau ac ansawdd y ddarpariaeth. Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da wrth weithredu ar y rhan fwyaf o'r argymhellion o'r arolygiad blaenorol. Mae datblygu'r ddarpariaeth i godi safonau Cymraeg yn parhau yn flaenoriaeth briodol yng nghynllun datblygu presennol yr ysgol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

O dan arweiniad blaengar y pennaeth, mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol ac mewn modd strategol gydag ystod eang o bartneriaid i wella safonau a lles disgyblion.

Mae partneriaethau da iawn gyda'r rhieni. Mae'r ysgol yn ystyried safbwyntiau rhieni yn briodol ac yn cynnig gwybodaeth ddefnyddiol iddynt am y ddarpariaeth ac ar ddatblygiad a chynnydd eu plant. Mae cysylltiadau gwerthfawr gyda'r eglwys leol, y gymuned a sefydliadau gwirfoddol. Mae'r disgyblion yn elwa'n fawr o ymweliadau oddi ar safle'r ysgol ynghyd â chroesawu ymwelwyr i siarad am eu gwaith.

Mae cysylltiadau trosglwyddo effeithiol rhwng y cylch meithrin lleol a'r ysgol. Er enghraifft, mae'r ysgol wedi creu llawlyfr ar y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd ar gyfer y staff. Mae cynlluniau trosglwyddo rhwng yr ysgol ac Ysgol Dyffryn Taf yn galluogi disgyblion hŷn i gael eu paratoi'n briodol ar gyfer y cyfnod nesaf yn eu haddysg.

Mae cysylltiadau cynhyrchiol gydag ysgolion cynradd ac uwchradd y cylch. Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol â'r ysgol uwchradd i gymedroli a safoni gwaith yn y pynciau craidd a chyflwyno prosiectau ar y cyd. Mae'r pennaeth yn cymryd rôl flaenllaw yng nghynlluniau hyfforddiant mewn swydd ysgolion y cylch yn cynnwys rhannu arfer dda a chyflwyno blaenoriaethau cenedlaethol. Mae defnydd pwrpasol o gydgyfrannu adnoddau dynol a chyllidol yn hybu partneriaethau adeiladol. Rhennir syniadau a dulliau cyflwyno amrywiol mewn pynciau megis mathemateg ac mae hyn yn cael dylanwad cryf ar godi safonau.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr ysgol ddigon o staff addysgu i gyflwyno'r cwricwlwm yn llawn. Mae'r athrawon a'r cymorthyddion dosbarth yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd.

Mae rhaglenni datblygiad proffesiynol parhaus y staff yn effeithio'n gadarnhaol ar ddarpariaeth yr ysgol. Gwna'r staff ddefnydd addas o'u hamser cynllunio, paratoi ac asesu i gynorthwyo eu gwaith yn y dosbarth. Mae rheoli perfformiad ar waith ar gyfer pob un o'r staff ac yn cael ei weithredu'n gyson. Mae gan bob un o'r staff dargedau unigol, a darperir yr hyfforddiant sydd ei angen i'w galluogi i fodloni'r targedau hynny.

Mae'r adeiladau yn darparu amgylchedd dysgu ac addysgu deniadol. Mae nifer ac ansawdd yr adnoddau sydd ar gael i'r disgyblion a'r athrawon yn briodol.

Mae'r ysgol wedi sefydlu rhwydweithiau effeithiol o arfer broffesiynol yn yr ysgol a chydag ysgolion a phartneriaid eraill. Mae'r staff yn manteisio ar bob cyfle i ddatblygu eu harbenigedd drwy fod ynghlwm â chymunedau dysgu proffesiynol mewn agweddau ar ddatblygu llythrennedd a'r defnydd o ddata. Mae'r gwaith hwn yn dylanwadu'n gadarnhaol ar ddatblygu medrau llythrennedd y disgyblion ar draws yr ysgol. Mae'r staff yn awyddus iawn i gymryd rhan mewn gweithgareddau i wella eu heffeithiolrwydd, er enghraifft mynychu cyrsiau i ddysgu Cymraeg.

Mae gwariant wedi'i gysylltu'n glir â blaenoriaethau yn y cynllun datblygu ysgol. Mae'r pennaeth a'r corff llywodraethol yn monitro ac yn rheoli gwariant yn effeithiol i

sicrhau ei fod yn parhau o fewn y gyllideb.  Mae'r cynllunio strategol yn gadarn ac yn canolbwyntio ar gynnal safonau da.  Felly, mae'r ysgol yn rhoi gwerth da am arian o ran deilliannau disgyblion, natur y ddarpariaeth ac ansawdd yr arweinyddiaeth.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn 2013, roedd canran y disgyblion a gyflawnodd y dangosydd Cyfnod Sylfaen yn is na chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg a chyfartaledd Cymru. Ym meysydd dysgu sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu, a datblygiad mathemategol, roedd canran y disgyblion a gyflawnodd y safon ddisgwyliedig (deilliant 5 neu'n fwy) yn is na chyfartaleddau'r teulu a Chymru. Ym maes datblygiad personol a chymdeithasol, roedd cyflawniadau'r disgyblion yn debyg i gyfartaledd y teulu ac yn is na chyfartaledd Cymru. Yn asesiadau 2012, roedd cyflawniadau disgyblion yn uwch na chyfartaleddau'r teulu a'r cyfartaledd cenedlaethol ym mhob maes dysgu.

Roedd cyflawniad y disgyblion ar y lefelau uwch (deilliant 6) yn 2013 yn is na chanlyniadau'r teulu a Chymru ar draws y meysydd dysgu. Yn asesiadau 2012, roedd cyflawniad y disgyblion mewn datblygiad mathemateg yn uwch na'r teulu a Chymru, yn debyg i gyfartaledd y teulu mewn datblygiad iaith, llythrennedd a chyfathrebu ac yn uwch na chyfartaledd Cymru. Ym maes datblygiad personol a chymdeithasol, roedd cyflawniad y disgyblion yn is na chyfartaleddau'r teulu a Chymru.

Wrth gymharu ag ysgolion o ran canran y disgyblion â'r hawl i ginio am ddim, mae cyflawniad disgyblion ar y lefelau disgwyliedig a'r lefelau uwch yn amrywio rhwng y 50% a'r 25% uchaf yn 2012, a'r 50% a'r 25% isaf yn 2013.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae cyflawniad disgyblion ar y lefel ddisgwyliedig (lefel 4 neu'n fwy) dros y blynyddoedd diwethaf wedi bod yn anwastad ond yn aml yn uwch na chyfartaleddau ar gyfer ysgolion y teulu a Chymru mewn mathemateg a gwyddoniaeth. Yn y ddwy flynedd ddiwethaf, roedd cyflawniad y disgyblion yn uwch na chyfartaleddau'r teulu a chyfartaleddau Cymru ym mhob pwnc craidd.

Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefelau uwch (lefel 5 neu fwy) yn anwastad mewn cymhariaeth â ffigurau'r teulu a Chymru. Mewn Saesneg, mae'r canlyniadau yn y ddwy flynedd ddiweddaf yn uwch na chyfartaleddau'r teulu a Chymru. Mewn mathemateg a gwyddoniaeth, mae'r canran wedi bod yn is na chyfartaleddau'r teulu a Chymru yn y rhan fwyaf o flynyddoedd. Mae'r tuedd mewn gwyddoniaeth ar i fyny yn 2013.

Wrth gymharu ag ysgolion o ran canran y disgyblion â'r hawl i ginio am ddim, mae cyflawniad disgyblion ar y lefelau disgwyliedig a'r lefelau uwch dros gyfnod yn amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf.

Oherwydd yr amrywiad yn nifer y bechgyn a merched o fewn y grwpiau, nid oes patrwm cyson yn y gwahaniaeth rhwng canlyniadau bechgyn a merched, er bod amrywiaethau. Yn y Cyfnod Sylfaen yn 2013, mae bechgyn yn cyflawni'n well ar y cyfan na merched ar y lefel ddisgwyliedig. Yn y pedair blynedd diwethaf yng nghyfnod allweddol 2, mae merched yn gyffredinol yn cyflawni'n well ar y lefelau uwch. Yn asesiadau 2013, er bod bechgyn yn cyflawni'n well mewn gwaith llafar, maent yn cyflawni'n is na'r merched mewn darllen.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da ac yn cyflawni eu targedau.

Nid yw disgyblion sy'n hawlio prydau ysgol am ddim wedi cyflawni cystal â'u cyfoedion dros amser, ond yn 2012 mae eu cyflawniad yn gyfartal yng nghyfnod allweddol 2 ac yn well ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen.

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 40 | 40<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 40 | 40<br>100%<br>92% | 0<br>0%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 40 | 40<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 40 | 40<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 40 | 40<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 40 | 37<br>92%<br>96% | 3<br>8%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 40 | 40<br>100%<br>99% | 0<br>0%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 40 | 40<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 40 | 38<br>95%<br>91% | 2<br>5%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 40 | 40<br>100%<br>95% | 0<br>0%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 40 | 38<br>95%<br>78% | 2<br>5%<br>22% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 40 | 37<br>92%<br>84% | 3<br>8%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 32 | 23 | 8 | 0 | 0 | 1 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 72% | 25% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 32 | 26 | 6 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 81% | 19% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 32 | 25 | 7 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 78% | 22% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 32 | 21 | 10 | 1 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 66% | 31% | 3% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 3% | 0% | | |
| Pupils behave well in school. | 32 | 23 | 9 | 0 | 0 | 0 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 72% | 28% | 0% | 0% | | |
| | | 45% | 46% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 32 | 24 | 8 | 0 | 0 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 75% | 25% | 0% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 32 | 28 | 4 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 88% | 12% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 30 | 18 | 10 | 1 | 0 | 1 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 60% | 33% | 3% | 0% | | |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 32 | 25 | 6 | 1 | 0 | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 78% | 19% | 3% | 0% | | |
| | | 58% | 34% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 32 | 26 | 6 | 0 | 0 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 81% | 19% | 0% | 0% | | |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 32 | 26 | 6 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 81% | 19% | 0% | 0% | | |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 28 | 20 | 7 | 0 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 71% | 25% | 0% | 0% | | |
| | | 50% | 35% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 32 | 20 | 11 | 1 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 62% | 34% | 3% | 0% | | |
| | | 49% | 41% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 32 | 23<br>72% | 8<br>25% | 1<br>3% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 31 | 22<br>71% | 8<br>26% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 44% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 32 | 22<br>69% | 10<br>31% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 55% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 26 | 13<br>50% | 11<br>42% | 0<br>0% | 0<br>0% | 2 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 42% | 34% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 32 | 25<br>78% | 7<br>22% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 53% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 32 | 26<br>81% | 5<br>16% | 1<br>3% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 61% | 33% | 3% | 1% | | |

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Emma Rofe | Arolygydd Cofnodol |
| David Kenneth Davies | Arolygydd Tîm |
| Deris Williams | Arolygydd Lleyg |
| Gruffydd Dylan Roberts | Arolygydd Cymheiriaid |
| Nia Ward | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.